

Croeso i'n trydydd cylchlythyr

Mae ardaloedd Crindau a Shaftesbury yng Nghasnewydd gyda risg sylweddol o lifogydd llanw gyda thua 650 eiddo mewn perygl. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu cynllun lliniaru perygl llifogydd i ostwng perygl o lifogydd o Crindau Pill.

Gwaith ar y gweill ar hyn o bryd

Mae dros 60% o'r gwaith pentyrru (darnau o ddur sy'n cyd-gloi i greu wal gref) wedi'i gwblhau. Mae'r llwyfan pentyrru wedi gorffen gosod pentyrrau i Ystâd Masnachu Albany ac mae bellach wedi symud i Barc Lorïau R.J. Mason i barhau â'r gwaith.

Rydym yn ymgymryd â'r "cloddio prawf" sy'n weddill. Rydym yn cloddio ar hyd y llinell ble y bydd pyst yn cael eu gosod ac yn tynnu unrhyw rwystrau (megis briciau, blociau concrit) y byddwn yn dod ar eu traws.

Rydym yn symud ymlaen gyda pharatoadau ar gyfer y trawstiau daear concrit a'r waliau i'w hadeiladu yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd a'r rhandiroedd ar Pugsley Street.

Mae'r gwaith draenio wedi dechrau trwy osod rhyng-gipwyr petrol parhaol a siambrau i atal llygredd i'r afon.



Cloddio prawf



Rig blaen

Cau Lyne Road

Mae Lyne Road wedi'i gau ar gyfer gwneud gwaith ar y bont. Mewn ymgynghoriad â Chyngor Dinas Casnewydd, bydd y cyfnod hwn o gau yn cael ei ymestyn am 20 wythnos i ganiatáu i wasanaethau (BT, trydan) gael eu dargyfeirio. Gweler arwyddion lleol am ragor o wybodaeth. Bydd y gwaith yn cynnwys tynnu waliau canllaw cyfredol y bont a'u disodli gyda waliau concrit wedi'u hatgyfnerthu a pharatoi'r bont i gysylltu â'r waliau llifogydd newydd ar naill ochr a'r llall i'r bont.

Mae'n ddrwg gennym am unrhyw anghyfleustra a achosir. Gofynnwn am eich amynedd yn ystod y rhan ddyrys hon o'r cynllun.

Gwaith yn y dyfodol

Rydym yn gorffen ar y gwaith paratoi y tu ôl i swyddfeydd Waterside Court ac yn fuan byddwn yn adeiladu'r wal atal llifogydd.

Ym mis Mehefin gobeithiwn ddechrau adeiladu'r arglawdd pridd trwy Barc Shaftesbury.

Gweithio gyda'r gymuned

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda David Rice sylfaenydd Shaftesbury Events. Gyda'n gilydd rydym wedi bod yn edrych ar gyfleoedd i gefnogi dyheadau

Canolfan Gymunedol Shaftesbury Community Centre i fywiocau'r ardal trwy osod gwelyâu blodau uchel.

Rydym wedi cytuno i gefnogi David a'r Ganolfan Gymunedol trwy helpu wrth gynllunio'r gwely blodau a'r cynlluniau sy'n ofynnol er mwyn i'r Cyngor eu cymeradwyo.

Diolch o galon i Reseclo, Menter Gymdeithasol leol (cwmni nid-er-elw) sydd wedi cytuno i gyflenwi pren ar gyfer y gwelyau blodau a byddwn yn helpu i'w gosod unwaith y mae'r caniatâd wedi'i roi.



Cysylltwch â **Gino Salvatore** os hoffech drafod unrhyw fater yn ymwneud â'r gymuned neu'r gwaith adeiladu. Ffôn: 07918 640481 Ebost: gino.salvatore@gallifordtry.co.uk

